Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwneud Penderfyniadau Gwell a Thecach

A. Cynnig

1. Teitl y cynnig

Fframwaith Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer

2. Beth mae eich cynnig yn ceisio ei gyflawni?

Mae'r cynnig yn adolygu ac yn diweddaru'r Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer | LLYW.CYMRU (y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "Y Cod"). Pan gyflwynwyd y Cod, ymrwymodd y Gweinidogion i'w adolygu ddwy flynedd ar ôl ei weithredu. Mae'r adolygiad wedi ystyried profiad gweithredu, adborth rhanddeiliaid a datblygiadau polisi ers i'r Cod ddod i rym ym mis Medi 2024. Bwriad y diwygiadau arfaethedig yw cryfhau arferion comisiynu trwy hyrwyddo mwy o gysondeb, tryloywder a chydweithrediad ledled Cymru, gan gynnwys disgwyliadau sy'n ymwneud â chomisiynu integredig, cydraddoldeb a hawliau dynol, cynllunio'r gweithlu, gwaith teg, darpariaeth y Gymraeg, cynaliadwyedd a'r defnydd o dystiolaeth a phrofiad bywyd.

3. Pryd ddechreuodd y gwaith ar y cynnig?

26 Gorffennaf

4. Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau sy'n debygol o gael eu heffeithio?

Mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar sefydliadau a phobl sy'n ymwneud â chomisiynu, cynllunio, darparu, rheoleiddio a defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, comisiynwyr, darparwyr gofal a chymorth, cyrff sy'n cynrychioli darparwyr, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, ADSS Cymru, sefydliadau eiriolaeth, sefydliadau'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, ymarferwyr a'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r asesiad hwn yn cydnabod y gall pobl brofi sawl math o anghydraddoldeb, gyda rhai o'r mathau hynny yn gorgyffwrdd. Gall nodweddion gwarchodedig ryngweithio â ffactorau fel anfantais economaidd-gymdeithasol, anghenion y Gymraeg, cyfrifoldebau gofalu, lleoliad daearyddol a phrofiadau o wahaniaethu. Mae'r Cod diwygiedig yn cryfhau'r disgwyliadau bod comisiynwyr yn ystyried cydraddoldeb, hawliau dynol a chroestoriadedd trwy gydol y cylch comisiynu. Bwriad hyn yw cefnogi comisiynwyr i ddeall ac ymateb yn well i'r ffactorau croestoriadol hyn wrth asesu anghenion y boblogaeth, cynllunio gwasanaethau a gwerthuso canlyniadau

Mae grwpiau penodol o ddiddordeb yn cynnwys pobl hŷn, pobl anabl, plant a theuluoedd, pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, siaradwyr Cymraeg, pobl LHDTC+, a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig eraill. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn ceisio cefnogi egwyddor o ystyried

anghenion, profiadau a chanlyniadau'r grwpiau hyn trwy drefniadau comisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau ac yn seiliedig ar hawliau.

Yn ogystal, gofynnodd adolygiad ysgafn Llywodraeth Cymru o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i dimau polisi ystyried a yw eu gwaith yn adlewyrchu'n briodol brofiadau pobl yr effeithir arnynt gan hiliaeth a rhagfarn hiliol. Yn unol â hyn, mae'r asesiad hwn yn ystyried profiadau pobl yr effeithir arnynt gan hiliaeth, gan gynnwys gwrthsemitiaeth, Islamoffobia a rhagfarn gwrth-Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn ogystal â phobl sy'n profi sawl anfantais.

5. A ydych wedi cofrestru eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar iShare?

Rhaid i chi gofrestru eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fyddwch chi'n dechrau datblygu eich cynnig.

Yes

B. Effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig, ac ymgysylltu â nhw

Atebwch yr un gyfres o gwestiynau ar gyfer pob un o'r naw grŵp gwarchodedig (Gwiriwch Adran 7 o'r Canllawiau am ddiffiniadau a nodwch yr amddiffyniad gwahanol ar gyfer priodas a phartneriaeth sifil yn adran 7.9).

Mae dogfen Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn darparu trosolwg cynhwysfawr o ganlyniadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig yng Nghymru ac fe'i defnyddiwyd fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i lywio'r asesiad hwn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at anghydraddoldebau parhaus, heriau sy'n dod i'r amlwg a bylchau mewn tystiolaeth sy'n berthnasol i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Oedran

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: Asesiad Effaith Integredig yn tynnu sylw at y galw cynyddol am wasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru, yn enwedig wrth i'r boblogaeth heneiddio. Rhagamcanwyd y byddai cyfran y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu o 21.4% o'r boblogaeth yn 2021 i 25.5% erbyn 2041. Mae'r asesiad yn tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd atal, canlyniadau lles a dulliau cynaliadwy o ateb y galw cynyddol am ofal a chymorth, sy'n berthnasol i drefniadau comisiynu.

Mae ffeithiau a ffigurau GOV.UK o ran grwpiau oedran ac ethnigrwydd yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn oedran canolrifol llawer o grwpiau ethnig leiafrifol. Ac eithrio grwpiau ethnig Du Arall a Chymysg, mae pob un ohonynt yn gweld oedran canolrifol yn cynyddu'n gyflymach na'r gyfradd boblogaeth gyffredinol. Bu cynnydd arbennig o sylweddol ar gyfer poblogaethau Tsieineaidd, Indiaidd, Du Caribïaidd a Gwyn Arall. Mae gan hyn oblygiadau o ran deall anghenion poblogaeth sy'n newid a sicrhau bod trefniadau comisiynu yn parhau i fod yn ymatebol yn ddiwylliannol.

Mae adroddiadau Gofal Cymdeithasol Cymru yn dangos bod proffil oedran y gweithlu yn wahanol rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau a gomisiynwyd. Mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn tueddu i gadw gweithlu hŷn, gydag ychydig dros hanner y gweithwyr yn 46 oed neu'n hŷn, tra bod gwasanaethau a gomisiynwyd yn cyflogi gweithlu iau, gyda thua 60 y cant o staff o dan 46 oed. Mae gan hyn oblygiadau o ran recriwtio, cadw, cynllunio ar gyfer olyniaeth a chynllunio'r gweithlu o fewn trefniadau comisiynu.

2. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae rhywfaint o'r dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud â Chymru a Lloegr yn hytrach na Chymru yn benodol. Fodd bynnag, ystyriwyd tystiolaeth ddemograffig, tystiolaeth o'r gweithlu a thystiolaeth o bolisïau sy'n benodol i Gymru hefyd pan oedd ar gael.

3. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i roi adborth ynghylch a yw'r Cod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol, nodi unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau arfaethedig, a rhoi barn ar ei effaith a'i werth, gan gynnwys unrhyw effeithiau posibl sy'n deillio o newidiadau

arfaethedig. Ceisir adborth gan sefydliadau a phobl sy'n ymwneud â chomisiynu, cynllunio, darparu a rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Bydd ymatebion yn cael eu defnyddio i lywio ystyriaeth o unrhyw ddiwygiadau i'r Cod cyn proses ymgynghori ffurfiol.

4. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â demograffeg sy'n newid, y galw cynyddol am ofal a chymorth, a thueddiadau'r gweithlu wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cadw ffocws ar ansawdd, atal, canlyniadau lles, cynaliadwyedd a chynllunio'r gweithlu yn y Cod. Mae hyn wedi llywio ystyriaeth o ran a yw'r Cod yn parhau i gefnogi comisiynwyr i gynllunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl o bob oedran.

Mae adborth rhanddeiliaid gan rai darparwyr wedi tynnu sylw at bryderon y gall pwysau ariannol, o dan rai amgylchiadau, effeithio ar allu comisiynwyr i flaenoriaethu annibyniaeth, cyfranogiad cymunedol a chanlyniadau lles. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio ystyriaeth o sut y gall y Cod diwygiedig barhau i gryfhau disgwyliadau ynghylch comisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r gwaith o fesur gwerth.

5. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Gall y Cod diwygiedig gefnogi effeithiau cadarnhaol i bobl o bob oedran sydd angen gofal a chymorth trwy gefnogi comisiynwyr i ddeall anghenion y boblogaeth a chynllunio gwasanaethau sy'n bodloni'n well ofynion demograffig sy'n newid. Gall y ffocws cryfach ar ansawdd, atal, lles, cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol gyfrannu at well profiadau a chanlyniadau i bobl hŷn, oedolion o oedran gweithio, plant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth.

6. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Bydd yr adolygiad yn ystyried pa ddiwygiadau sydd eu hangen i gryfhau gallu'r cod i gefnogi comisiynwyr i ddeall ac ymateb i anghenion gwahanol grwpiau oedran. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ac adborth rhanddeiliaid yn cael eu defnyddio i lywio diwygiadau i'r Cod ac i ystyried unrhyw effeithiau cydraddoldeb a nodwyd trwy weithredu.

7. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Efallai y bydd angen gwasanaethau gofal a chymorth ar bobl ag anableddau, gan gynnwys pobl niwrowahanol, sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion a'u dewisiadau unigol. Mae trefniadau comisiynu effeithiol yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ymatebol i amrywiaeth eang o anghenion a gofynion cyfathrebu. Bydd yr adolygiad o'r Cod yn ystyried a yw'r Fframwaith yn parhau i gefnogi comisiynwyr i gynllunio a sicrhau gwasanaethau sy'n hyrwyddo lles, annibyniaeth a chynhwysiant i bobl anabl a niwrowahanol.

Mae tystiolaeth o Gynllun Hawliau Pobl Anabl 2025 i 2035 wedi llywio'r asesiad hwn. Yn benodol, mae'r diwygiadau arfaethedig yn cefnogi canlyniadau sy'n ymwneud â gofal cydgysylltiedig ac amserol, lleoliadau gofal hygyrch, gofal sy'n canolbwyntio ar hawliau ac

sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyfathrebu hygyrch a chymorth i ofalwyr di-dâl. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o ganlyniadau sy'n berthnasol i'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys gofal cydgysylltiedig ac amserol, lleoliadau gofal hygyrch, gofal sy'n canolbwyntio ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyfathrebu hygyrch, darparwyr gofal cefnogol a chydnabod gofalwyr di-dâl.

Mae'n cael ei ategu gan y Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau yn aml yn codi o'r ffordd y mae gwasanaethau ac amgylcheddau'n cael eu cynllunio a'u darparu, yn hytrach nag o safbwynt amhariad person yn unig. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i drefniadau comisiynu ac maen nhw wedi llywio ystyriaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r Cod, yn enwedig mewn perthynas â hygyrchedd, addasiadau rhesymol, cyfathrebu hygyrch ac arferion comisiynu niwrogadarnhaol. Fe wnaeth gwaith ymgysylltu â swyddogion polisi niwrowahaniaeth, Tîm Niwrowahaniaeth Cymru a'r prosiect IMPACT dynnu sylw at rwystrau sy'n ymwneud â hygyrchedd, cyfathrebu a mynediad at wasanaethau hefyd.

Mae data Cyfrifiad 2021 yn tynnu sylw at y ffaith bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn profi lefelau anghymesur o uchel o anabledd a chyfrifoldebau gofal di-dâl. Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried y rhyngweithio rhwng anabledd, ethnigrwydd a chyfrifoldebau gofalu mewn trefniadau asesu poblogaeth, cynllunio gwasanaethau a chomisiynu. Mae'n atgyfnerthu hefyd yr angen i gomisiynwyr ddeall ac ymateb i anghenion cymunedau a allai brofi lefelau anghymesur o uchel o gyfrifoldebau gofal ac anabledd wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.

8. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Er bod tystiolaeth ar gael mewn perthynas ag anabledd ag amhariad ymhlith pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yng Nghymru, gan gynnwys data o Gymru ar oedolion a phlant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd ag anabledd neu amhariad, mae tystiolaeth fwy cyfyngedig ynghylch profiadau pobl niwrowahanol sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd. Mae'r dystiolaeth benodol i Gymru sy'n ymwneud â rhai cymunedau ethnig leiafrifol anabl, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn neu Deithwyr, yn gyfyngedig.

9. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu â swyddogion polisi niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru, Tîm Niwrowahaniaeth Cymru a phrosiect ymchwil IMPACT sy'n cynnwys pobl niwrowahanol. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi llywio cynigion ar gyfer adran newydd ar gomisiynu niwrowahaniaeth a niwrogadarnhaol yn y Cod diwygiedig.

10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae tystiolaeth o'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cyfathrebu hygyrch, cydgynhyrchu, dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, byw'n annibynnol a chael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cael mynediad at ofal a chymorth priodol. Mae hyn wedi llywio cynigion i gryfhau ffocws y Cod ar gydraddoldeb, hygyrchedd, hawliau dynol ac arferion comisiynu niwrogadarnhaol.

Nododd adborth rwystrau a brofwyd gan bobl niwrowahanol wrth gael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau cyffredinol ehangach. O ganlyniad, mae'r

Cod diwygiedig yn cynnig cyflwyno adran newydd ar niwrowahaniaeth i gefnogi comisiynwyr i ystyried hygyrchedd, cynhwysiant ac addasiadau rhesymol trwy gydol y cylch comisiynu.

11. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r Cod diwygiedig gael effaith gadarnhaol trwy gryfhau'r disgwyliadau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu mewn ffyrdd sy'n hygyrch, yn ymatebol ac yn deg. Gall y ffocws cryfach ar gydraddoldeb, hygyrchedd, addasiadau rhesymol, cyfathrebu hygyrch a chomisiynu niwrogadarnhaol gyfrannu at well mynediad at wasanaethau a chanlyniadau gwell i bobl anabl a niwrowahanol. Gall gefnogi ystyriaeth well hefyd o anghenion cymunedau sy'n profi lefelau anghymesur o uchel o gyfrifoldebau anabledd a gofal, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, o fewn trefniadau asesu'r boblogaeth, cynllunio gwasanaethau a chomisiynu.

12. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid yn helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth a llywio'r asesiad terfynol. Bydd effaith y Cod diwygiedig yn parhau i gael ei fonitro trwy weithgaredd gweithredu, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygiadau yn y dyfodol.

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Canfu Adroddiad Gofal Cymdeithasol Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (SCHG) 2026 fod y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn dod yn fwyfwy amrywiol, ond bod staff o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn rolau arwain ac yn parhau i adrodd am anghydraddoldebau sy'n ymwneud â dilyniant gyrfa, gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu. Mae data gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn dangos amrywiaeth ethnig gynyddol ar draws y gweithlu hefyd, er bod hyn yn amrywio ar draws lleoliadau a rolau. Mae'r dystiolaeth hon yn berthnasol i'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth oherwydd gall trefniadau comisiynu ddylanwadu ar ddisgwyliadau darparwyr, diwylliant y gweithlu, arferion gwaith teg, ansawdd gwasanaethau a phrofiadau pobl sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae data'r gweithlu ar ofynion fisa hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y gwaith o gynllunio'r gweithlu o fewn gwasanaethau comisiynu yn deg, yn foesegol ac yn gynaliadwy.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus sy'n cydnabod ac ymateb i anghenion a phrofiadau pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan hiliaeth, gwrthsemitiaeth, Islamoffobia a rhagfarn gwrth-Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ac maen nhw wedi llywio'r asesiad hwn. Mae tystiolaeth o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd deall ac ymateb i anghydraddoldebau strwythurol, gwahaniaethu a rhwystrau a brofir gan gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

14. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â hil ac ethnigrwydd o fewn gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yng Nghymru yn parhau i fod yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd. Er bod data'r gweithlu a thystiolaeth cydraddoldeb ehangach ar gael, mae'r dystiolaeth yn fwy cyfyngedig ynghylch profiadau a chanlyniadau rhai cymunedau ethnig leiafrifol sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd. Felly, mae'r asesiad hwn wedi defnyddio tystiolaeth y gweithlu, tystiolaeth cydraddoldeb ehangach, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a pholisïau perthnasol Llywodraeth Cymru.

15. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Ymgysylltwyd â swyddogion polisi cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trafodaethau ar oblygiadau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i adnewyddu a phrofiadau pobl yr effeithir arnynt gan hiliaeth, gwrthsemitiaeth, Islamoffobia a rhagfarn gwrth-Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Mae sylwadau a ddaeth i law trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi llywio ystyriaeth ynghylch sut y gall y Cod diwygiedig gefnogi comisiynu sy'n ymatebol yn ddiwylliannol, gwaith teg a darparu gwasanaethau cynhwysol.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae tystiolaeth wedi llywio cynigion i gryfhau disgwyliadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, hawliau dynol, cydgynhyrchu, cyfathrebu hygyrch ac ystyriaeth o groestoriadedd. Mae'r Cod diwygiedig yn cryfhau disgwyliadau hefyd fod comisiynwyr yn deall anghenion y boblogaeth, yn ymateb i anghydraddoldebau ac yn ystyried sut y gall gweithgaredd comisiynu helpu i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau i bobl o gymunedau ethnig leiafrifol.

17. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Gall y Cod diwygiedig gefnogi effeithiau cadarnhaol trwy arferion comisiynu mwy cynhwysol sy'n ymatebol yn ddiwylliannol. Gall y pwyslais cryfach ar ddeall anghenion y boblogaeth, cydgynhyrchu, cyfathrebu hygyrch a chomisiynu seiliedig ar ganlyniadau helpu comisiynwyr i nodi ac ymateb yn well i anghenion pobl sy'n profi anghydraddoldebau croestoriadol, gan gynnwys unigolion yr effeithir arnynt gan hiliaeth ochr yn ochr ag anabledd, anghenion sy'n gysylltiedig ag oedran, cyfrifoldebau gofalu, anfantais economaidd-gymdeithasol neu wahaniaethu sy'n gysylltiedig â ffydd. Mae'r cynnig yn cefnogi uchelgeisiau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol hefyd drwy helpu i leihau anghydraddoldebau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Gall pwyslais y Cod diwygiedig ar gydgynhyrchu, hawliau dynol a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd gefnogi ffyrdd o weithio sy'n ystyriol o drawma wrth gefnogi pobl sydd wedi profi gwahaniaethu, allgáu neu ragfarn. Mae gan y cod diwygiedig ddolenni ychwanegol i'r Fframwaith sy'n Ystyriol o Drawma hefyd a bydd adnoddau ychwanegol i gefnogi hyn ar gael yn y pecyn cymorth ategol.

18. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Bydd comisiynwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio tystiolaeth y gweithlu, data asesu'r boblogaeth ac adborth defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd lle bo ar gael, er mwyn deall anghydraddoldebau mewn mynediad, profiad a chanlyniadau ac i lywio penderfyniadau comisiynu.

19. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae'r dystiolaeth yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *A yw Cymru'n Decach?,* data'r Cyfrifiad a pholisi cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ymatebol i bobl o gefndiroedd crefyddol a chred amrywiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw hefyd at gynnydd mewn troseddau casineb â chymhelliant crefyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys adroddiadau o gynnydd mewn troseddau sy'n targedu unigolion oherwydd eu ffydd. Gall profiadau o'r fath effeithio ar ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus a gall ddylanwadu ar y ffordd y mae unigolion yn ymgysylltu â gwasanaethau gofal a chymorth. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r polisïau cydraddoldeb cysylltiedig yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cynhwysiant a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ymatebol i anghenion cymunedau lleiafrifol. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried anghenion ffydd a chred ac anghenion diwylliannol wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.

20. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â chrefydd neu gred o fewn gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yng Nghymru yn gyfyngedig. Nid yw crefydd a chred yn cael eu cofnodi'n rheolaidd mewn llawer o setiau data gofal cymdeithasol ac mae'r dystiolaeth sy'n benodol i Gymru yn gyfyngedig ynghylch profiadau gwahanol grwpiau ffydd a chred sy'n cael mynediad at wasanaethau a gomisiynwyd. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad, tystiolaeth cydraddoldeb ehangach, ymgysylltu â rhanddeiliaid a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru.

21. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Nid oes unrhyw waith ymgysylltu penodol wedi'i gynnal â grwpiau ffydd neu gred fel rhan o'r adolygiad. Fodd bynnag, mae gwaith ymgysylltu â swyddogion polisi cydraddoldeb, sefydliadau rhanddeiliaid a chynrychiolwyr y sector ehangach wedi llywio ystyriaeth o anghenion ffydd a chred ac anghenion diwylliannol. Bydd gweithgaredd ymgynghori yn rhoi cyfle pellach i nodi unrhyw effeithiau sydd angen ystyriaeth ychwanegol.

22. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae tystiolaeth wedi atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau comisiynu yn ddigon hyblyg ac yn ymatebol i anghenion crefyddol, cred a diwylliannol gwahanol. Mae hyn wedi llywio ystyriaeth o ddarpariaethau cryfach cydraddoldeb, hawliau dynol a chynhwysiant yn y Cod diwygiedig. Mae adborth gan randdeiliaid yn tynnu sylw at bwysigrwydd deall anghenion ffydd a chred ac anghenion diwylliannol wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth. Mae tystiolaeth yn dangos lefelau cynyddol o droseddau casineb â chymhelliant crefyddol, a allai effeithio ar ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus a dylanwadu ar y ffordd y mae rhai pobl yn ymgysylltu â gwasanaethau gofal a chymorth.

23. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Gall y pwyslais cryfach ar gydraddoldeb, hawliau dynol, comisiynu sy'n ymatebol yn ddiwylliannol a deall anghenion y boblogaeth gefnogi mwy o ystyriaeth o ffydd, cred a gofynion diwylliannol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i brofiadau unigolion yr effeithir arnynt gan wrthsemitiaeth ac Islamoffobia, yn unol ag adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

24. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Disgwylir i'r Cod diwygiedig gefnogi effaith gadarnhaol trwy gryfhau disgwyliadau ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth, cydgynhyrchu, cyfathrebu hygyrch a chomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gall hyn helpu comisiynwyr i nodi ac ymateb i anghenion sy'n gysylltiedig â ffydd, gan gynnwys gofynion deietegol, arfer crefyddol, cyfathrebu, gofal diwedd oes a phrofiadau o wahaniaethu. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithgaredd gweithredu yn cael eu defnyddio i nodi a oes angen camau ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion a phrofiadau sy'n gysylltiedig â ffydd. Bydd comisiynwyr yn cael eu hannog i ystyried anghenion ffydd a chred ac anghenion diwylliannol trwy asesiadau o anghenion y boblogaeth, gweithgaredd cydgynhyrchu a threfniadau cynllunio gwasanaethau.

25. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â rhyw a gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yn gyfyngedig. Mae setiau data rhai awdurdodau lleol yn cofnodi rhywedd yn hytrach na rhyw ar hyn o bryd, sy'n cyfyngu ar y dystiolaeth sydd ar gael sy'n benodol i Gymru. Felly, ategwyd y dystiolaeth trwy wybodaeth am y Cyfrifiad, tystiolaeth y gweithlu, tystiolaeth ehangach ynghylch cydraddoldeb a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru.

26. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â rhyw a gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yn gyfyngedig. Mae setiau data rhai awdurdodau lleol yn cofnodi rhywedd yn hytrach na rhyw ar hyn o bryd, sy'n cyfyngu ar y dystiolaeth sydd ar gael sy'n benodol i Gymru. Felly, ategwyd y dystiolaeth trwy wybodaeth am y Cyfrifiad, tystiolaeth y gweithlu, tystiolaeth ehangach ynghylch cydraddoldeb a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru.

27. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Nid oes unrhyw ymgysylltu sy'n canolbwyntio'n benodol ar ryw wedi'i gynnal fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, tystiolaeth y gweithlu a thystiolaeth ynghylch cydraddoldeb wedi llywio ystyriaeth o effeithiau posibl. Bydd gweithgaredd ymgynghori yn rhoi cyfle i nodi unrhyw effeithiau sydd angen eu hystyried ymhellach.

28. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae tystiolaeth wedi atgyfnerthu pwysigrwydd ystyriaethau cydraddoldeb, cynllunio'r gweithlu, gwaith teg a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn wedi llywio'r

ffocws cryfach yn y Cod diwygiedig ar gydraddoldeb, cynhwysiant, ystyriaethau'r gweithlu a deall anghenion y boblogaeth.

29. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Mae'r Cod diwygiedig yn cryfhau disgwyliadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, hawliau dynol, cydgynhyrchu a deall anghenion y boblogaeth. Gall y newidiadau hyn gefnogi mwy o ystyriaeth o wahaniaethau sy'n gysylltiedig â rhyw mewn mynediad at wasanaethau gofal a chymorth a phrofiadau ohonynt. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y dystiolaeth sy'n benodol i ryw yn gyfyngedig yn golygu y bydd effeithiau'n parhau i gael eu harchwilio trwy weithgaredd ymgynghori a gweithredu.

30. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a gweithgaredd gweithredu yn parhau i gael eu defnyddio i nodi unrhyw effeithiau sy'n benodol i ryw a allai fod angen rhagor o weithredu.

RHYWEDD

31. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth o ddata Cyfrifiad 2021 ac ymchwil ehangach yn dangos y gall pobl drawsryweddol a rhywedd-amrywiol brofi rhwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a gallant brofi gwahaniaethu, allgáu a chanlyniadau gwaeth. Er mai prin yw'r data ynglŷn â phrofiadau pobl drawsryweddol sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yng Nghymru, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn parchu hunaniaeth a dewisiadau unigol. Mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Cod, gan gynnwys dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn berthnasol i gefnogi mynediad cyfartal at wasanaethau.

32. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â phobl drawsryweddol a rhywedd-amrywiol sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yng Nghymru yn gyfyngedig. Daw'r dystiolaeth sydd ar gael i raddau helaeth o ddata'r Cyfrifiad ac ymchwil ehangach sy'n ymwneud â mynediad, cynhwysiant, gwahaniaethu a phrofiadau o wasanaethau cyhoeddus.

33. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Ni chynhaliwyd unrhyw waith ymgysylltu penodol gyda phobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon fel rhan o'r adolygiad. Mae tystiolaeth ehangach ynghylch cydraddoldeb, adborth rhanddeiliaid a phrofiad gweithredu wedi llywio'r asesiad hwn. Bydd gweithgaredd ymgynghori yn rhoi cyfle i nodi unrhyw effeithiau sydd angen eu hystyried ymhellach a chasglu tystiolaeth ychwanegol lle bo ar gael.

34. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae tystiolaeth wedi atgyfnerthu pwysigrwydd dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, dulliau sy'n seiliedig ar hawliau a dulliau cynhwysol o gomisiynu a darparu gwasanaethau. Mae'r egwyddorion hyn wedi llywio'r darpariaethau cryfach o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn y Cod diwygiedig.

35. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Gall y diwygiadau arfaethedig gyfrannu at drefniadau comisiynu mwy cynhwysol trwy eu ffocws cryfach ar gydraddoldeb, hygyrchedd a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yn parhau i fod yn gyfyngedig.

36. Pa gamau fyddwch chi’n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Disgwylir i ymatebion i'r ymgynghoriad ac adborth rhanddeiliaid nodi unrhyw effeithiau sydd angen eu hystyried ymhellach.

37. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yng Nghymru yn parhau i fod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ehangach o gydraddoldeb a pholisïau Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol, yn deg ac yn ymatebol i anghenion unigol. Mae tystiolaeth sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau, cyfrifoldebau gofalu a chanlyniadau cydraddoldeb ehangach wedi llywio'r asesiad hwn. Mae wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cydraddoldeb, urddas, cydgynhyrchu a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhwyslais y Cod ar gydraddoldeb, hawliau dynol, cydgynhyrchu a chomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bwriad y darpariaethau hyn yw cefnogi gwasanaethau cynhwysol sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion a phrofiadau amrywiol pobl sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth.

38. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â chyfeiriadedd rhywiol a gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yng Nghymru yn gyfyngedig. Nid yw cyfeiriadedd rhywiol yn cael ei gofnodi'n rheolaidd mewn llawer o setiau data gofal cymdeithasol.

39. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Nid oes unrhyw waith ymgysylltu sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfeiriadedd rhywiol wedi'i wneud fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ehangach ynghylch cydraddoldeb, adborth rhanddeiliaid a gwaith polisi blaenorol sy'n ymwneud â gofal a chymorth cynhwysol wedi llywio'r asesiad hwn.

40. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae tystiolaeth wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cydraddoldeb, urddas, cydgynhyrchu a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r egwyddorion hyn wedi llywio'r darpariaethau cryfach o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn y Cod diwygiedig.

41. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Gall y ffocws cryfach ar gydraddoldeb, cynhwysiant, hawliau dynol a chomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyfrannu at wasanaethau gofal a chymorth mwy cynhwysol i bobl LHDTC+. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

42. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn helpu i nodi unrhyw faterion sydd angen eu hystyried ymhellach.

43. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Gall beichiogrwydd, mamolaeth a chyfrifoldebau gofalu effeithio ar angen unigolyn am wasanaethau gofal a chymorth, yn ogystal â'i allu i gael mynediad at wasanaethau. Er bod tystiolaeth gyfyngedig ar gael yn benodol ynglŷn ag effaith trefniadau comisiynu ar bobl sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar, mae tystiolaeth ehangach ynghylch cydraddoldeb yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau hygyrch, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n ystyried amgylchiadau ac anghenion unigol. Mae ffocws y Cod ar ganlyniadau lles, atal a chomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon.

44. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â beichiogrwydd, mamolaeth a gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynwyd yng Nghymru yn gyfyngedig. Nid yw statws beichiogrwydd a mamolaeth yn cael eu cofnodi'n rheolaidd mewn llawer o setiau data gofal cymdeithasol. O ganlyniad, mae'r asesiad yn defnyddio tystiolaeth ehangach ynghylch cydraddoldeb a pholisïau perthnasol sy'n ymwneud â gofal, cymorth a lles.

45. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Nid oes unrhyw waith ymgysylltu penodol sy'n ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth wedi'i wneud fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, tystiolaeth ynghylch cydraddoldeb a phrofiad gweithredu wedi llywio'r asesiad.

46. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid oes unrhyw newidiadau penodol wedi'u gwneud mewn ymateb uniongyrchol i'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sy'n ymwneud ag anghenion ac amgylchiadau unigol yn cefnogi ffocws ehangach y Cod diwygiedig ar gomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae tystiolaeth hefyd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd dealltwriaeth comisiynwyr o amgylchiadau unigol, cyfrifoldebau gofalu a rhwystrau i gael mynediad at gymorth. Mae'r ystyriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu ym mhwyslais cryfach y Cod diwygiedig ar gydgynhyrchu, atal, dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a deall anghenion y boblogaeth.

47. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Nid oes unrhyw effaith wahaniaethol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth gyfyngedig yn golygu y bydd y casgliad hwn yn cael ei brofi trwy ymgynghori a bydd yn cael ei adolygu os daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg. Gall y ffocws cryfach ar atal, lles, comisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a deall anghenion amrywiol gyfrannu'n gadarnhaol at bobl sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar neu sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu sylweddol.

48. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol? Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithgaredd gweithredu yn cael eu defnyddio i nodi unrhyw effeithiau sydd angen eu hystyried ymhellach. Bydd pwyslais y Cod diwygiedig ar gomisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a deall anghenion unigol yn parhau i gefnogi ystyriaeth o feichiogrwydd ac anghenion sy'n gysylltiedig â mamolaeth lle bo hynny'n berthnasol.

49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth gyfyngedig wedi'i nodi ynghylch effaith benodol y newidiadau arfaethedig ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. Mae'r Cod yn gymwys i'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a'i fwriad yw cefnogi mynediad cyfartal at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion unigol a chanlyniadau lles. Y bwriad yw i'r egwyddorion comisiynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau gael eu defnyddio'n gyson, waeth beth fo statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

50. A oes unrhyw dystiolaeth yn ansicr neu ddim ar gael?

Mae'r dystiolaeth gyfyngedig yn golygu y bydd y casgliad hwn yn cael ei brofi trwy ymgynghori a bydd yn cael ei adolygu os daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg.

51. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Nid oes unrhyw waith ymgysylltu sy'n ymwneud yn benodol â phriodas neu bartneriaeth sifil wedi digwydd fel rhan o'r adolygiad hwn. Nid yw ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid wedi nodi unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd warchodedig hon. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu trwy ymgynghori a gweithredu.

52. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n awgrymu y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar bobl yn wahanol ar sail statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw ddiwygiadau penodol wedi'u gwneud mewn ymateb i'r nodwedd warchodedig hon.

53. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?

Nid oes unrhyw effaith wahaniaethol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth gyfyngedig yn golygu y bydd y casgliad hwn yn cael ei brofi trwy ymgynghori a bydd yn cael ei adolygu os daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg.

54. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn helpu i nodi unrhyw faterion sydd angen eu hystyried ymhellach.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. A yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?

No

2. **Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, esboniwch pam.**

3. Bydd yr asesiad hwn yn parhau i gael ei ddiweddaru i adlewyrchu ymatebion i'r ymgynghoriad, adborth rhanddeiliaid ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol a nodwyd yn ystod y broses ymgynghori.

4. A yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn ddiweddariad o fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol?

No

5. Sut byddwch chi'n monitro a gwerthuso cynnydd ar y materion cydraddoldeb a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb?

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn parhau i fod yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei adolygu trwy weithgaredd gweithredu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Bydd gwaith monitro yn defnyddio prosesau hunanasesu a phrosesau ar gyfer cynllunio gwelliannau blynyddol, asesiadau o anghenion y boblogaeth, tystiolaeth y gweithlu ac adborth defnyddwyr gwasanaethau er mwyn asesu a yw'r Cod diwygiedig yn cyfrannu at well cydraddoldeb, cynhwysiant a chanlyniadau i bobl â nodweddion gwarchodedig.

Awdurdodiad

Datganiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr/Uwch Swyddog Cyfrifol:

Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi'i asesu a'i gofnodi'n briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofyniad o ran cyhoeddi wedi'i ystyried yn briodol.

Llofnod: Ychwanegwch lofnod electronig.

Adran: Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Dyddiad: Hydref 2026